Senedd Cymru
**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

# Cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer Cynllun Ffermio Cynaliadwy

Gorffennaf 2024

Mae craffu ar y gwaith o ddatblygu cynigion ar gyfer Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn flaenoriaeth allweddol i'r Pwyllgor. Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu canfyddiadau a barn y Pwyllgor ar y sefyllfa bresennol, yn dilyn ymgysylltu â rhanddeiliaid a Llwyodraeth Cymru.

Ar 9 Mai, cynhaliodd y Pwyllgor ymchwiliad undydd gyda rhanddeiliaid. Roedd hyn yn dilyn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar gynigion ar gyfer cynllun a gynhaliwyd rhwng 14 Rhagfyr 2023 a 7 Mawrth 2024. Trafododd yr Aelodau'r cynigion a'r broses o ymgysylltu a chydgynllunio â rhanddeiliaid (gweler Atodiad 1), a daeth tystiolaeth ysgrifenedig i law (gweler Atodiad 2), cyn sesiwn gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig a oedd newydd ei benodi ("yr Ysgrifennydd Cabinet") ar 13 Mehefin 2024.

Bu Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith y Senedd hefyd yn ystyried y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar wahân, ac ymunodd dau Aelod o'r Pwyllgor hwn â digwyddiad i randdeiliaid gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd ar 13 Mawrth. Yna cynhaliodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd sesiynau tystiolaeth ar 21 Mawrth. Roedd gwaith y Pwyllgor Newid Hinsawdd yn canolbwyntio ar

agweddau amgylcheddol y cynllun, ond roedd hefyd yn ystyried pa mor ymarferol ydyw, o ystyried yr angen am gyfranogiad i gyflawni canlyniadau amgylcheddol a ddymunir. Bydd y Pwyllgor hwnnw yn ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Cabinet ar wahân i roi ei farn. Gellir gweld manylion gwaith y ddau Bwyllgor ar gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar wefan y Senedd.[1]

Roedd disgwyl i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy gael ei gyflwyno yn 2025. Fodd bynnag, ar ôl sesiynau'r Pwyllgor gyda rhanddeiliaid, yn dilyn ymateb y diwydiant ffermio i'r cynigion, ar 14 Mai cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cabinet oedi tan 2026. Bydd Cynllun y Taliad Sylfaenol yn parhau yn 2025, a bydd cymorth pellach i ffermwyr organig yn 2025 yn cael ei ystyried.[2] Gan gyfeirio at Gynllun Cynefin Cymru, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet ei fod yn ymchwilio i roi cyfle i fwy o ffermwyr gael cymorth yn 2025 ar gyfer rheoli cynefinoedd. Dywedodd hefyd ei fod yn disgwyl i Gynlluniau Buddsoddi Gwledig presennol, fel y cynlluniau grantiau bach, barhau i gefnogi newidiadau i'r seilwaith, a dywedodd "rydym yn gweithio ar gynllun newydd ar raddfa'r dirwedd a fydd yn adeiladu ar brofiad cynlluniau cydweithio blaenorol."

Ar 17 Gorffennaf cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet barhad Cynllun Cynefin Cymru a'r cynlluniau Taliad Cymorth Organig a chefnogaeth Cyswllt Ffermio yn 2025. At hynny, cyhoeddodd Gynllun Adnoddau Naturiol Integredig newydd i "gefnogi partneriaethau rhwng ffermwyr i gael hyd i atebion sy'n seiliedig ar natur ar draws tirwedd, dalgylch neu ar raddfa gyfan Cymru" ar gyfer 2025."[3]

Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrth Aelodau o'r Senedd:

> *"Byddwn ni'n cychwyn cyfnod paratoi ar gyfer y cynllun ffermio cynaliadwy yn 2025 i ddangos y buddion sy'n gysylltiedig â'r camau cyffredinol arfaethedig trwy drosglwyddo gwybodaeth, gweithgarwch wedi'i dargedu a chymorth ariannol. Bydd hyn yn paratoi ffermwyr yn well ar gyfer ymuno â'r cynllun o ddechrau'r cyfnod pontio arfaethedig yn 2026."*[4]

Eglurodd yr Ysgrifennydd Cabinet y byddai'r oedi yn caniatáu rhagor o sgyrsiau a thrafodaethau gyda Phlaid Cymru, fel rhan o'r Cytundeb Cydweithio a oedd yn

[1] Cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer Cynllun Ffermio Cynaliadwy (senedd.cymru)
[2] https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-dyfodol-ffermio-yng-nghymru
[3] Ysgrifennydd y Cabinet yn cadarnhau'r gefnogaeth fydd ar gael i ffermwyr yn 2025 | LLYW.CYMRU
[4] https://cofnod.senedd.cymru/Plenary/13909#A88042

dal i fod ar waith ar y pryd,[5] a chydag aelodau o'r Ford Gron Weinidogol ("y Ford Gron"), a'i fod yn bwriadu "gweithio'n gyflym i nodi'r meysydd y gallwn gytuno arnyn nhw er mwyn gallu canolbwyntio wedyn ar y materion sydd angen mwy o sylw."

Ymhlith y materion i'w datrys drwy'r Ford Gron mae dod o hyd i fethodoleg talu briodol, ystyried asesiad economaidd wedi'i ddiweddaru, a chynigion dal a storio carbon. Hefyd, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet y byddai'r cam paratoi yn 2025 yn cael ei ddefnyddio i gynnal ymarfer cadarnhau data, i gael darlun mwy cywir o gynefin a gorchudd coed ar draws pob fferm, a gweithio gyda rhanddeiliaid ar ddatblygu cynigion ar gyfer Gweithredoedd Dewisol a Chydweithredol pellach o dan y cynllun.

[5] https://www.plaid.cymru/cytundeb_cydweithio_cooperation_agreement_ends

# Rhagair y Cadeirydd

Mae Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 yn nodi cyfeiriad newydd ar gyfer polisi amaethyddol, a'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yw'r cyfrwng er mwyn cynnig dull 'Gwnaed yng Nghymru' o gefnogi ffermwyr a chymunedau gwledig. Ond roedd y cynllun yn destun oedi, cam-gyfathrebu a lefelau digynsail o bryder ynghylch p'un a allai gyflawni.

Rhoddodd ein hymchwiliad undydd, a'n sesiwn gyda'r Ysgrifennydd Cabinet, gipolwg ar y daith tuag at gyflwyno'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Ddiwrnodau ar ôl cyfarfod â rhanddeiliaid, ym mis Mai cyhoeddwyd y byddai'r cynllun yn cael ei ohirio tan 2026. Erbyn inni gyhoeddi'r adroddiad hwn yn Sioe Frenhinol Cymru, bydd y daith wedi parhau.

Mae'r materion hollbwysig sydd eto i'w datrys yn sylweddol. Maent yn cynnwys hanfodion o ran dyluniad y cynllun: y camau gweithredu sydd eu hangen, y targedau i'w cyrraedd ar gyfer gorchudd coed a rheoli cynefinoedd, a methodoleg a chyfraddau talu'r cynllun. Mae cwestiynau mawr a godwyd yn ystod y gwaith craffu ar Fil Amaethyddiaeth (Cymru) yn parhau: sut y gall Llywodraeth Cymru sicrhau bod y cynllun yn hygyrch i bob ffermwr, waeth beth fo math a deiliadaeth eu fferm? A sut gallwn ni sicrhau cydbwysedd rhwng diogelu dyfodol y diwydiant ffermio a chynhyrchu bwyd ynghyd â mynd i'r afael ag argyfyngau hinsawdd a natur yn uniongyrchol?

Mae gan y Ford Gron Weinidogol, a sefydlwyd i drafod y materion hyn, waith mawr i'w wneud. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ymgysylltiad gan yr holl randdeiliaid materion gwledig yn ei waith craffu, ac mae'n edrych ymlaen at gyhoeddiadau pellach gan yr Ysgrifennydd Cabinet ynghylch datblygu cynllun sy'n wirioneddol addas ar gyfer y dyfodol. Fel y dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet – mae'n rhaid inni gael hyn yn iawn.



Paul Davies AS
Cadeirydd

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu manylion trylwyr ynghylch pa waith yn union sydd wedi'i wneud gyda rhanddeiliaid ers pasio Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 i sicrhau y bydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn cefnogi newydd-ddyfodiaid a chynllunio ar gyferolyniaeth yn llawn. Dylai nodi pa gynigion gan randdeiliaid a ystyriwyd, sut y cawsant eu hystyried, a'r rhesymeg dros wrthod rhai opsiynau. ....12

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am sut y mae'n bwriadu cynnwys cymorth i ffermwyr tenant a ffermwyr ar dir comin, o fewn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ac fel arall, a sut y bydd yn sicrhau yr ymgynghorir â rhanddeiliaid alweddol ar ymarferoldeb y cynigion terfynol. ....12

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o fanylion i'r Pwyllgor am y camau sy'n cael eu cymryd i ddiogelu ffermydd Cynghorau Sir, a sicrhau, ochr yn ochr â'r gwaith i gwblhau a chyflwyno'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, y canolbwyntir ar ddiogelu a chefnogiffermydd Cynghorau Sir a'u tenantiaid. ....13

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio'n gyflym drwy'r Ford Gron i bennu elfen gwerth cymdeithasol y cynllun a chyfleu'n glir beth mae hyn yn ei olygu i ffermwyr fel rhan o fethodoleg talu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. ....16

**Argymhelliad 5.** Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet ddarparu diweddariadau rheolaidd i'r Pwyllgor – o leiaf bob tri mis – ar y cynnydd o ran datblygu manylion Gweithredoedd y cynllun, gan gynnwys y statws a'r amserlenni ar gyfer ymgynghori'n ehangach a chytuno ar newidiadau tefynol i'r broses o gyflwyno'r cynllun. ....18

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru edrych ar fodelau cymorth ar gyfer cynlluniau ffermio organig o rannau eraill o Ewrop, a blaenoriaethu ymgysylltiad pellach â sector organig Cymru ar sail drawsadrannol - fel yr argymhellwyd gan Fforwm Organig Cymru - cyn cwblhau i chynigion o ran y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. ....18

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor am sut y mae'n ystyried arfer gorau mewn mannau eraill yn y DU ac yn gwerthuso gwahanol dechnolegau ac opsiynau dal a storio carbon. Dylai nodi sut

y caiff y gwaith hwn ei ymgorffori wrth datblygu a gwerthuso'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn y dyfodol......21

# 1. Cyflwyniad

Yn dilyn cyhoeddi oedi i'r cynllun, bydd 'Cam Paratoi' o weithgarwch yn 2025. Yn ystod y cyfnod hwnnw, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu cynigion ar gyfer Camau Gweithredoedd Dewisol a Chydweithredol pellach, gyda'r nod o gyflwyno'r rhain "cyn gynted â phosibl."[6]

**1.** Yn dilyn ei ddatganiad ar 14 Mai, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet yn y Cyfarfod Llawn:

> *"Nid ydyn ni wedi gweld y dadansoddiad terfynol, y dadansoddiad llawn o'r ymgynghoriad, ond rwyf wedi gweld rhai o'r canfyddiadau dros dro, ac mae'n eithaf clir ac amlwg lle mae'r meysydd hynny y mae angen i ni wneud ychydig mwy o waith arnyn nhw."*[7]

**2.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet hefyd y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Cyswllt Ffermio i "hyrwyddo manteision gorchudd coed a choetir ar ffermydd" ac ystyried parhau i roi cymorth i ffermwyr organig yn 2025.

**3.** Cadarnhaodd papur tystiolaeth yr Ysgrifennydd Cabinet fod "angen gwneud rhai newidiadau i'r cynnig"[8] a'i fod yn bwriadu cyhoeddi'r dadansoddiad o'r ymgynghoriad ac ymateb Llywodraeth Cymru ym mis Mehefin. Roeddem yn dal i ddisgwyl am hyn ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.[9]

**4.** O ran y gyllideb ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

---

[6] https://cofnod.senedd.senedd/Plenary/13909#A88042 – Paragraff 202
[7] https://cofnod.senedd.cymru/Plenary/13909#A88042
[8] https://busnes.senedd.cymru/documents/s150904/Evidence%20paper%20-%20Welsh%20Government.pdf
[9] Cynllun Ffermio Cynaliadwy | LLYW.CYMRU

> *rydyn ni'n mynd i fod yn gofyn i Lywodraeth y DU ddarparu'r un lefel o gyllid o leiaf ag a gawson ni'r flwyddyn ariannol hon, ynghyd â chwyddiant, a mwy...Mae'r Bil yn £339.6 miliwn, os gwelwch yn dda, ynghyd â chwyddiant, ac unrhyw beth arall y maen nhw eisiau'i ychwanegu. Rydyn ni'n gweithio...i ddatblygu ein cais am gyllid.*[10]

**5.** Croesawodd NFU Cymru y llinell amser newydd, tra bod amgylcheddwyr fel Cymdeithas y Pridd Cymru, WWF Cymru ac Ymddiriedolaethau Natur Cymru yn siomedig gyda'r oedi, gan dynnu sylw at argyfyngau hinsawdd a natur.

**6.** Dywedodd papur yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"Nid yw cyflwyno'r Cynllun yn 2026, ar ôl y cyfnod Paratoi, yn golygu gwanhau'r ymrwymiadau i'r hinsawdd nag i natur. Ond mae heriau i'w datrys cyn y gall ffermwyr deimlo'n hyderus yn y cynllun. Ni ddaw unrhyw fudd o gyflwyno cynllun yn rhy fuan os na fydd ffermwyr am ymuno ag e."*[11]

# 2. Ymgysylltu a chyd-ddylunio

**7.** Teimlai cynrychiolwyr o'r byd ffermio nad oedd cynigion y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn cynnwys materion a godwyd yn ystod y trafodaethau cyd-ddylunio. Dywedodd ymateb NFU Cymru i'r ymgynghoriad:

> *"... we created a detailed and comprehensive Sustainable Farming Scheme proposal that has been positively received by academics, NGOs and politicians from across the political spectrum. Whilst elements of this framework have been taken forward within the current proposals, it is a source of deep disappointment that the key elements of stability, simplicity, and fair reward for the delivery of sustainable farming objectives have been ignored thus far."*[12]

**8.** Dywedodd yr undeb ffermio hefyd nad oedd y cynigion yn cyd-fynd â'r newidiadau sylfaenol a sicrhawyd i Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) yn ystod ei

---

[10] https://cofnod.senedd.cymru/Plenary/13909#A88042
[11] https://busnes.senedd.cymru/documents/s150904/Evidence%20paper%20-%20Welsh%20Government.pdf
[12] https://busnes.senedd.cymru/documents/s151726/Paper%20-%20National%20Farmers%20Union%20Cymru%20NFU.pdf

thaith drwy'r Senedd. Galwodd NFU Cymru am ailwampio, ac roedd ymateb Undeb Amaethwyr Cymru (FUW) yn galw am fframwaith polisi amgen priodol, gan ddweud mai'r hyn oedd ei angen oedd caniatáu digon o amser i ailfeddwl am y cynigion trwy gyd-ddylunio gwirioneddol gyda'r ddau undeb ffermio.[13]

**9.** Crynhodd Aled Jones o NFU Cymru yr her:

> *"… environmental groups would consider it a key consideration that every farmer in Wales is able to participate in the scheme. And they would probably agree that having 50 per cent of farmers unwilling to participate wouldn't actually deliver on environmental benefits. So, I think the message has to be to design a scheme that every farmer in Wales wishes to and can participate in, and then get them on the journey. That's the essential message."*

**10.** Pwysleisiodd yr Athro Janet Dwyer ei bod yn egwyddor wirioneddol bwysig bod y cynllun ar gael i bob fferm yng Nghymru, gydag opsiynau ar gyfer gwahanol fathau o ffermydd a'r marchnadoedd y maent yn bwydo i mewn iddynt.[14] Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrth yr Aelodau mai'r egwyddor gyntaf oedd gwneud yn siŵr bod y gweithredoedd cyffredinol wirioneddol ar gael i bob ffermwr sydd am fod yn rhan o hyn.[15]

**11.** Tynnodd yr Athro Dwyer sylw hefyd at yr angen i fynd i'r afael â heriau sy'n ymwneud ag effaith rheoleiddio, yn enwedig y rheoliadau llygredd nitrad.[16][17] Dywedodd:

> *"The key is getting the model right that can work for everybody, and I think, at the moment, that's where the problem lies; it's that what's being asked of farmers in the proposals that have been produced so far is looking like it's an awful lot of extra work for unknown but potentially insufficient reward, compared to what they've been used to under the previous*

[13] https://busnes.senedd.cymru/documents/s151727/Paper%20-%20Farmers%20Union%20of%20Wales%20FUW.pdf
[14] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Mai 2024, Paragraff 389-390
[15] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Mai 2024, Paragraff 362
[16] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Mai 2024, Paragraff 390
[17] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Mai 2024, Paragraffau 425-431

> *regimes. And that's the shock to the system that they're finding very difficult to cope with."*[18]

**12.** Cyfeiriodd Rhys Owen o Tirweddau Cymru at gyfleoedd a gollwyd yn ystod y gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid i ddefnyddio arbenigedd sefydliadol i helpu i ddatblygu syniadau, a mynegwyd rhwystredigaeth hefyd ynghylch pa mor hwyr y bu ymgynghori ar y manylion a'r data y tu ôl i ddatblygu'r cynllun.[19]

**13.** Wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor ar 13 Mehefin, dangosodd yr Ysgrifennydd Cabinet ddealltwriaeth glir o'r meysydd lle mae angen gwaith ar frys nawr:

> *"Having seen some of the interim analysis of where we are, I don't think there were any great shocks or surprises. So, it is around things such as that issue of carbon sequestration. It is around the issues such as tree cover. It is around issues such as making sure this is right for tenant farmers, common land. It is also … to do with social value."*[20]

## Gweithgorau Arbenigol

**14.** Wrth graffu ar Fil Amaethyddiaeth (Cymru), rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor y byddai Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â rhai pryderon penodol a godwyd gan randdeiliaid ynghylch cymorth amaethyddol yn y dyfodol drwy ymgysylltu â gweithgorau arbenigol. Yn benodol, roedd y Pwyllgor wedi tynnu sylw at faterion yn ymwneud ag anghenion ffermwyr tenant, ffermwyr ar dir comin, a newydd-ddyfodiaid i'r byd ffermio.[21] Roedd yn destun pryder mawr felly i glywed gan Aled Jones o NFU Cymru y bu problemau sylweddol gyda'r gwaith hwn i lywio datblygiad y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Dywedwyd wrth yr Aelodau, er y cynhaliwyd cyfarfodydd pwrpasol gyda'r grŵp tenantiaeth, ni ddechreuwyd ar y grŵp ffermydd trawsffiniol, ni chafodd grŵp y genhedlaeth nesaf ei sefydlu, a daeth y grŵp tir comin i stop.[22]

**15.** Dywedodd y Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur a Cyswllt Amgylchedd Cymru ei bod yn anodd cael gafael ar y cyn Weinidog Materion Gwledig.[23] Dywedodd Cymdeithas y Pridd Cymru ei bod hi'n anodd cael gafael ar yr adran

[18] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Mai 2024, Paragraff 391
[19] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Mai 2024, Paragraffau 213-214
[20] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Mai 2024, Paragraff 360
[21] https://senedd.cymru/media/x5qllrnt/cr-ld15627-w.pdf
[22] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Mai 2024, Paragraff 18
[23] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Mai 2024, Paragraff 216

diwygio rheoli tir, sydd wedi bod yn dylunio'r cynllun.[24] Croesawodd y rhanddeiliaid y ffaith bod yr Ysgrifennydd Cabinet wedi sefydlu'r Ford Gron ar gyfer ymgysylltu parhaus. Pwysleisiodd yr undebau ffermio fod angen grŵp cymharol fach ar hyn o bryd[25], a dywedodd Alex Phillips sy'n cynrychioli Cyswllt Amgylchedd Cymru, ei fod yn disgwyl mai grŵp cymharol fach sy'n symud yn gyflym fydd hwn. Fodd bynnag, roedd Andrew Tuddenham o Gymdeithas y Pridd Cymru wedi synnu nad oedd Fforwm Organig Cymru wedi cael gwahoddiad i gymryd rhan, o ystyried ei arwyddocâd fel sector yng Nghymru.[26]

## Cefnogi Ffermwyr Tenant a Ffermwyr ar Dir Comin

**16.** Dywedodd Cymdeithas y Ffermwyr Tenant (TFA) fod y cynigion presennol a'r fethodoleg talu yn anymarferol i ffermwyr tenant sydd wedi'u cau mewn gan gyfraith tenantiaeth.

**17.** Dywedodd Dennis Matheson o Gymdeithas y Ffermwyr Tenant:

> *"As far as tenancies are concerned, I don't know whether it's solvable, because the Welsh Government have had five years since I first mentioned it to come up with a scheme that tenants can access, but, this scheme, tenants cannot access… It would have to be a different scheme, or it would have to exempt tenants from anything they can't do, which wouldn't be fair, would it?"*[27]

**18.** Tynnodd Dennis Matheson sylw at arwyddocâd o beidio â datrys y rhwystrau i ffermwyr tenant:

> *"… 27 to 30 per cent of Wales is farmed by someone other than the landowner, and a quarter of active farmers are tenants or graziers, so if they can't get into the scheme, the Welsh Government isn't going to achieve its objectives—no way."*[28]

**19.** Cytunodd yr undebau ffermio y dylai'r Gweithredoedd Cyffredinol fod ar gael i ffermwyr tir comin. Cafwyd trafodaeth ynghylch a ddylid cael cynllun ar wahân ar gyfer tir comin. Dywedodd Gareth Parry o FUW y byddai cefnogaeth

[24] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Mai 2024, Paragraff 210
[25] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Mai 2024, Paragraffau 12-16
[26] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Mai 2024, Paragraff 222
[27] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Mai 2024, Paragraff 27
[28] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Mai 2024, Paragraff 109

ychwanegol yn hollbwysig oherwydd diwedd Glastir - Tir Comin.[29] Tynnodd yr Athro Janet Dwyer sylw at ymchwil gan Dr Gwyn Jones a'r enghraifft o reoli tiroedd comin ar Dartmoor. Dywedodd fod hyblygrwydd yn allweddol, ac y byddai cefnogaeth barhaus Llywodraeth Cymru i rôl swyddogion datblygu tiroedd comin yng Nghymru yn bwysig. Dywedodd fod rhoi egni yn ôl i reolaeth tiroedd comin yn rhan wirioneddol bwysig o amaethyddiaeth gynaliadwy yng Nghymru yn y dyfodol, yn ei barn hi.[30]

## Cymorth i newydd-ddyfodiaid

**20.** Roedd Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru yn dadlau nad oedd digon o gymorth i newydd-ddyfodiaid a ffermwyr ifanc, ac nad ymgynghorwyd yn ystyrlon â nhw: Dywedodd nad oedd un o'u hawgrymiadau wedi cael eu gweithredu.[31] Yn ôl Dominic Hampson-Smith:

> *"There is nothing to encourage younger generations … as important as it is to support the businesses that are in place now, it's the likes of myself and what my organisation represents that is the future of agriculture, and that's something I think we really need to concentrate on… Without us being involved and feeling that this is a scheme that can support us, we're going down the wrong road."*[32]

**21.** Darparodd Cymdeithas y Ffermwyr Tenant dystiolaeth ychwanegol yn amlygu bod cyllid ar gyfer tenantiaid Ffermydd Cyngor Sir yn cael ei gyfyngu'n sylweddol. Dywedodd Cymdeithas y Ffermwyr Tenant fod cynghorau yn anfodlon ymrwymo arian i ddiweddaru offer sefydlog i gydymffurfio â Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 pan fo cymaint o alwadau ar eu cyllidebau.[33] Mae ffermydd cyngor yn llwybr pwysig i ffermio ar gyfer newydd-ddyfodiaid, ond dywedodd Cymdeithas y Ffermwyr Tenant fod Cyngor Sir Powys yn nodi efallai nad oedd ganddo ddewis arall ond cael gwared ar ei ystâd cyngor: "*Any loss of Council farms due to Welsh Government policies would be regrettable and counter-productive to encouraging young people to enter the industry*."

[29] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Mai 2024, Paragraff 122
[30] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Mai 2024, Paragraffau 394-396
[31] Ein Cyf / Our Ref: (senedd.cymru)
[32] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Mai 2024, Paragraff 44
[33] Tystiolaeth ychwanegol – Cymdeithas y Ffermwyr Tenant

**22.** Dywedodd yr Athro Janet Dwyer os yw Llywodraeth Cymru yn ystyried mesurau adnewyddu cenhedlaeth ar draws yr Undeb Ewropeaidd; a rhoi rhywfaint o sylw ac ymdrech i'r agwedd hon ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, yna gallai helpu i drawsnewid sut mae'r sector ffermio yn ei ystyried ar hyn o bryd. Dywedodd y gallai ffermwyr ifanc fod yn arloeswyr ac yn hyrwyddwyr dulliau adfywiol, gan dynnu sylw at fenter Groundswell yn Lloegr. Awgrymodd yr Athro Dwyer y gallai pecyn cymorth ar gyfer newydd-ddyfodiaid gynnwys rhai taliadau bach ar gyfer pethau fel cynlluniau busnes blaengar[34], ar raddfa symudol o bosibl.

**Casgliad 1.** Mae'r Pwyllgor wedi rhybuddio Llywodraeth Cymru yn gyson bod yn rhaid i anghenion newydd-ddyfodiaid fod yn rhan flaengar a chanolog i gynlluniau cymorth i ffermwyr, er mwyn diogelu dyfodol y diwydiant. Mae hefyd wedi tynnu sylw at bryderon Cymdeithas y Ffermwyr Tenant ynghylch ffermydd Cynghorau Sir. Wrth ymateb[35] i Argymhelliad 19 o'n hadroddiad Cyfnod 1 ar Fil Amaethyddiaeth (Cymru) 2023[36], dywedodd y cyn Weinidog fod gweithgor sy'n cynrychioli'r undebau, Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc a cholegau amaethyddol wedi'i sefydlu a'i fod yn gweithio ar opsiynau i helpu i lunio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Roedd ein tystiolaeth ddiweddaraf yn awgrymu diffyg ymgynghori ystyrlon, a methiant i hyd yn oed sefydlu gweithgor 'cenhedlaeth nesaf'. Mae safbwyntiau gwahanol mor hwyr yn y broses o ddatblygu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, yn dilyn proses hir o 'gyd-ddylunio', yn peri pryder. Maent yn atgyfnerthu pryderon ehangach y Pwyllgor ynghylch sut y mae cynigion polisi Llywodraeth Cymru wedi cael eu cyfleu i randdeiliaid. Mae angen gwneud cynnydd ar frys ar ffyrdd o gefnogi ffermwyr tenant a chominwyr.

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu manylion trylwyr ynghylch pa waith yn union sydd wedi'i wneud gyda rhanddeiliaid ers pasio Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 i sicrhau y bydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn cefnogi newydd-ddyfodiaid a chynllunio ar gyfer olyniaeth yn llawn. Dylai nodi pa gynigion gan randdeiliaid a ystyriwyd, sut y cawsant eu hystyried, a'r rhesymeg dros wrthod rhai opsiynau.

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am sut y mae'n bwriadu cynnwys cymorth i ffermwyr tenant a ffermwyr ar dir comin, o fewn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ac fel arall, a sut y bydd yn

[34] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Mai 2024, Paragraffau 417-419
[35] Ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion yn y adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor ar y Bil Amaethyddiaeth (Cymru) pdf (seneddcymru)
[36] Bil Amaethyddiaeth (Cymru) Bill: Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor (senedd.cymru)

sicrhau yr ymgynghorir â rhanddeiliaid allweddol ar ymarferoldeb y cynigion terfynol.

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o fanylion i'r Pwyllgor am y camau sy'n cael eu cymryd i ddiogelu ffermydd Cynghorau Sir, a sicrhau, ochr yn ochr â'r gwaith i gwblhau a chyflwyno'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, y canolbwyntir ar ddiogelu a chefnogi ffermydd Cynghorau Sir a'u tenantiaid.

# 3. Cyflwyno'r cynllun

**23.** Dywedodd FUW fod angen newid radical er mwyn cael pethau'n iawn. Mynegodd yr undebau ffermio eu parodrwydd i weithio at y pen[37] gyda'r Ysgrifennydd Cabinet ond bod y dasg o ddylunio'r cynllun yn enfawr.[38] Roedd cynrychiolwyr ffermio wedi galw am estyniad o 12 mis i Gynllun y Taliad Sylfaenol (o 2025), a gwnaeth yr Ysgrifennydd Cabinet gytuno i hynny. Ond dywedodd Cyswllt Amgylchedd Cymru mai oedi i'r cynllun fyddai'r peth gwaethaf y gellid ei wneud[39], gan y byddai'n arwain at fwy o ansicrwydd.

**24.** Awgrymodd Rhys Evans o'r Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur y dylid cyflwyno'r cynllun fesul cam yn y flwyddyn gyntaf[40] (2026 erbyn hyn), i ganiatáu i fabwysiadwyr cynnar ddod i arfer â'r cynllun a mynd i'r afael ag unrhyw anawsterau cychwynnol.

# 4. Dull talu

**25.** Wrth gyhoeddi'r oedi i weithredu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, pwysleisiodd yr Ysgrifennydd Cabinet bwysigrwydd mynd y tu hwnt i'r costau yr eir iddynt a'r fethodoleg talu incwm a gollir, a chydnabod gwerth cymdeithasol camau gweithredu:

> *"Rhaid i'r SFS roi'r lefel gywir o gefnogaeth i ffermwyr i sicrhau bod eu busnesau'n rhai cydnerth. Dyma pam rydym wastad wedi dweud y byddwn yn cynnwys taliad am y buddion ehangach y mae ffermwyr yn eu darparu, hynny ar ben y taliad*

[37] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Mai 2024, Paragraff 100
[38] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Mai 2024, Paragraff 102
[39] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Mai 2024, Paragraff 272
[40] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Mai 2024, Paragraff 285

> *am incwm a gollwyd a'r costau a ysgwyddwyd, i gydnabod gwerth cymdeithasol ffermio. Bydd y Ford Gron yn ein helpu i ddyfeisio dull talu addas a bydd yn ystyried yr asesiad economaidd newydd o'r Cynllun ar ôl ei ddiwygio ynghyd ag unrhyw gynigion posibl eraill ac ychwanegol er mwyn atafaelu rhagor o garbon o fewn yr SFS."*[41]

**26.** Dywedodd yr holl randdeiliaid na fyddai'r fethodoleg talu costau ac incwm a gollir yn ddigon o gymhelliant i ffermwyr ymuno â'r cynllun. Dywedodd Gareth Parry o Undeb Amaethwyr Cymru:

> *"… the payments under this scheme will have to compensate for costs incurred and income forgone, in addition to compensating for the loss of direct farm support. And that is absolutely crucial, because if farm businesses are economically sustainable, they'll be able to invest in environmental goods and other things."*[42]

**27.** Holwyd yr Athro Janet Dwyer am y ffordd y mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn rhyngweithio â chytundebau masnach presennol ac yn y dyfodol a rheolau Sefydliad Masnach y Byd. Canmolodd Lywodraeth Cymru am ddweud bod angen mynd y tu hwnt i incwm a gollir fel sail i gyfraddau talu, gan ddweud bod y dull hwnnw'n achosi problemau yn Lloegr. Dywedodd:

> *"… the Wales scheme, as it's proposed, is fully decoupled, and, therefore, should be green box. Therefore, I don't think that the issue of the income forgone approach to payments should be a sensitive one for Wales. I think you're squeaky clean, and you have potential for a better environmental and animal welfare record than your trading competitors."*[43]

**28.** Mae pennu elfen taliad gwerth cymdeithasol y cynllun yn gymhleth. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"… we've got a deal of work to do in the preparatory phase, through the ministerial round-table, to try and explain better that, within not only the universal actions, but the collaborative*

[41] https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-dyfodol-ffermio-yng-nghymru
[42] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Mai 2024, Paragraff 30
[43] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Mai 2024, Paragraff 437

> *and optional, we can build that in as well, that we recognise that social value of farming to the rural economy."*[44]

**29.** Roedd FUW[45] a Tirweddau Cymru [46] yn pryderu y gallai arwain at loteri cod post. Roedd NFU Cymru yn dadlau y dylai'r taliad cymdeithasol ystyried yr holl amcanion rheoli tir cynaliadwy, gan amlygu gwytnwch busnes fferm.[47]

**30.** Dywedodd Cyfarwyddwr Materion Gwledig Llywodraeth Cymru fod gwaith yn mynd rhagddo y tu ôl i'r llenni i ddod â chynigion gwerth cymdeithasol i'r Ford Gron; pan ofynnwyd iddo pa arbenigedd allanol a ystyriwyd i gynorthwyo'r broses, dywedodd fod syniadau wedi dod i'r amlwg o'r ymgynghoriad.[48]

**31.** Roedd NFU Cymru a'r Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur ymhlith rhanddeiliaid a nododd y byddai ffermydd ar raddfa fach dan anfantais o dan y fethodoleg talu.[49] Roedd sawl un yn teimlo y byddai cyllideb ddangosol wedi bod yn ddefnyddiol i ddeall pa mor ymarferol ydoedd.[50]

**32.** Awgrymodd Alex Phillips o WWF Cymru, sy'n cynrychioli Cyswllt Amgylchedd Cymru, y dylid neilltuo 50 y cant o'r gyllideb i'r Gweithredoedd Cyffredinol a 50 y cant yn cael ei neilltuo ar gyfer haenau Cydweithredol a Dewisol.[51] Y cafeat oedd, pe bai'r Gweithredoedd Cyffredinol yn cael eu symleiddio, y dylid lleihau'r gyllideb i gyfeirio'r gyllideb i feysydd o'r cynllun sydd â'r budd amgylcheddol mwyaf.

**33.** Awgrymodd Cyswllt Amgylchedd Cymru fod Llywodraeth Cymru bellach wedi cyfuno materion gwledig a newid hinsawdd o dan un portffolio Gweinidogol, y gallai rhan o'r gyllideb newid hinsawdd gael ei chynnwys yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.[52]

**Casgliad 2.** Un o'r meini tramgwydd mwyaf gyda chynigion y cynllun fu diffyg gwybodaeth i'r diwydiant am fethodoleg a chyfraddau talu. Er bod y cam paratoi yn caniatáu mwy o amser i weithio ar fanylion y fethodoleg talu, bydd yn hanfodol i'r Ford Gron weithio'n gyflym i lunio a chytuno ar fethodoleg realistig a chadarn ochr yn ochr â chamau gweithredu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy y

[44] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 13 Mehefin 2024, Paragraff 360
[45] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Mai 2024, Paragraff 30
[46] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Mai 2024, Paragraff 237
[47] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Mai 2024, Paragraff 34
[48] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 13 Mehefin 2024, Paragraff 395
[49] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Mai 2024, Paragraffau 38; 321-322
[50] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Mai 2024, Paragraffau 229; 240; 254; 286
[51] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Mai 2024, Paragraff 254
[52] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Mai 2024, Paragraff 255

cytunwyd arnynt. Mae'r Pwyllgor yn gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi ystyriaeth lawn i farn rhanddeiliaid ar yr agwedd hollbwysig hon ar y cynllun.

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio'n gyflym drwy'r Ford Gron i bennu elfen gwerth cymdeithasol y cynllun a chyfleu'n glir beth mae hyn yn ei olygu i ffermwyr fel rhan o fethodoleg talu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

# 5. Newidiadau a awgrymir i Haenau Gweithredoedd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy

**34.** Roedd cynrychiolwyr o'r byd ffermio yn teimlo bod yna ormod o Weithredoedd Cyffredinol rhagnodol. Disgrifiodd NFU Cymru fod cael 17 o Weithredoedd Cyffredinol yn gwbl anymarferol.[53] Awgrymodd y Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur a Cyswllt Amgylchedd Cymru y gallai'r Gweithredoedd Cyffredinol gael eu pecynnu'n wahanol i'w gwneud yn llai beichus.[54] Roedd yr FUW am weld haen Gyffredinol sy'n wirioneddol gyffredinol ac yn gysylltiedig â busnes fferm, y gall pob busnes fferm gael mynediad iddi, sy'n canolbwyntio ar bethau fel meincnodi, Datblygiad Proffesiynol Parhaus, iechyd anifeiliaid, profi pridd, a newidiadau seiliedig ar ddefnydd tir fod yn hollol ddewisol.[55] Dywedodd NFU Cymru fod rhai elfennau o fewn y Gweithredoedd Cyffredinol yn amharchus i rai ffermwyr a'u harbenigedd.[56] Awgrymodd yr Athro Janet Dwyer mai'r ffordd o gwmpas hyn fyddai canolbwyntio ar leihau aneffeithlonrwydd wrth ddefnyddio mewnbwn. Dywedodd, "*a focus on nutrient use on farms could be a really good way of focusing attention on what the universal layer of the scheme might achieve in the shorter term*."[57]

**35.** Roedd yna gonsensws y byddai gohirio cyflwyno'r Gweithredoedd Dewisol a Chydweithredol yn rhoi'r rhai sy'n gwneud mwy dros yr amgylchedd ar hyn o bryd dan anfantais: ffermwyr tir comin, y rhai sy'n rheoli tir a ddynodwyd yn safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig (SoDdGA), a ffermwyr organig.[58]

[53] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Mai 2024, Paragraff 38
[54] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Mai 2024, Paragraff 243; Paragraff 257
[55] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Mai 2024, Paragraff 121
[56] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Mai 2024, Paragraff 124
[57] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Mai 2024, Paragraff 410
[58] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Mai 2024, Paragraffau 325-328

**36.** Dywedodd yr Athro Janet Dwyer y gallai senario lle y cyflwynir Gweithredoedd Dewisol yn ddiweddarach atal ffermwyr organig rhag ymuno â'r cynllun, a'i fod mewn gwirionedd yn gam am yn ôl:

> *"It's offering them a lower level of reward for a lower level of achievement than they would already be achieving as organic farmers, and I think that that sends a negative message."*[59]

**37.** Dywedodd fod yr ateb i'r elfen hon sydd ar goll o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn eithaf syml, gan gyfeirio at fodelau da o gynlluniau ffermio organig mewn mannau eraill yn Ewrop sy'n cefnogi trosi a chynnal rheolaeth organig.[60]

**38.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet a Chyfarwyddwr Materion Gwledig Llywodraeth Cymru wrth y Pwyllgor y byddai'r Ford Gron yn gweithio ar flaenoriaethu pa Weithredoedd i'w cyflwyno ar ddechrau'r cynllun. Dywedodd Gian Marco Currado:

> *"… our hope would be that we can bring online as many of the optional and collaborative from day 1, given that we are having a longer period to have that discussion. Realistically… I think there will still be a transition period. So, I don't think all of the optional and collaborative will be ready on day 1, but we hope that perhaps more will be ready than might otherwise have been the case."*[61]

**39.** Dywedodd fod dealltwriaeth dda o rai o'r meysydd i'w blaenoriaethu ar gyfer y Gweithredoedd Dewisol a Chydweithredol, gan gynnwys gweithredoedd cydweithredol ar dir comin fel un enghraifft.[62]

**Casgliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn deall awydd rhanddeiliaid i adolygu ac ail-becynnu Gweithredoedd Cyffredinol y cynllun, a chyflwyno'r Gweithredoedd gwahanol yn haenau Dewisol a Chydweithredol y cynllun fesul tipyn. Mae'n croesawu nod Llywodraeth Cymru i gyflwyno cymaint o Weithredol Dewisol a Chydweithredol â phosibl ochr yn ochr ag elfen gyffredinol y cynllun. Mae'n

[59] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Mai 2024, Paragraff 398
[60] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Mai 2024, Paragraff 399
[61] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 13 Mehefin 2024, Paragraff 363
[62] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 13 Mehefin 2024, Paragraff 365

hollbwysig gweithredu'n gyflym, a hoffai'r Pwyllgor gael sicrwydd bod y Ford Gron yn gwneud cynnydd cyflym o ran datrys y materion hyn.

**Argymhelliad 5.** Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet ddarparu diweddariadau rheolaidd i'r Pwyllgor – o leiaf bob tri mis – ar y cynnydd o ran datblygu manylion Gweithredoedd y cynllun, gan gynnwys y statws a'r amserlenni ar gyfer ymgynghori'n ehangach a chytuno ar newidiadau terfynol i'r broses o gyflwyno'r cynllun.

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru edrych ar fodelau cymorth ar gyfer cynlluniau ffermio organig o rannau eraill o Ewrop, a blaenoriaethu ymgysylltiad pellach â sector organig Cymru ar sail drawsadrannol - fel yr argymhellwyd gan Fforwm Organig Cymru - cyn cwblhau ei chynigion o ran y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

# 6. Datrysiadau posibl o ran gorchudd coed a dal carbon

**40.** Mae'r ddadl ynghylch cynigion y Cynllun Ffermio Cynaliadwy wedi'i chysgodi gan bryderon a chamddealltwriaeth ynghylch gofynion gorchudd coed – rhywbeth a amlygwyd gan dystiolaeth gan NFU Cymru a Cyswllt Amgylchedd Cymru.[63] Dywedodd Alex Phillips o Cyswllt Amgylchedd Cyfathrebu mai mater cyfathrebu yw hyn a bod angen ei ail-fframio: Dywedodd: *"how do you communicate and win back people by basically saying, 'Actually, what you've been very angry about isn't really what we're asking you to do'?"*[64] Dywedodd Aled Jones o NFU Cymru:

> *"It is a shame that this whole debate has been overshadowed by the debate on trees alone."*[65]

**41.** Pwysleisiodd y Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur a Cyswllt Amgylchedd Cymru[66] werth coed ar gyfer yr amgylchedd a chynhyrchiant amaethyddol (gyda chymorth cyngor a chanllawiau). Buont yn sôn am y camsyniad bod plannu coed, a bodloni'r gofyniad cynefin o 10 y cant, yn aberthu'r gwaith o gynhyrchu bwyd.[67] Cyfeiriodd Rhys Evans o'r Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur at enghraifft

[63] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Mai 2024, Paragraffau 305-307
[64] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Mai 2024, Paragraff 306
[65] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Mai 2024, Paragraff 61
[66] Papur - Cyswllt Amgylchedd Cymru.pdf (senedd.cymru)
[67] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Mai 2024, Paragraff 293

goncrid o ffermwr yn cyflawni hyn heb greu coetir, ond yn hytrach drwy leiniau cysgodi, coed mewn gwrychoedd a thir âr, cnydau a bugeilio.[68]

**42.** Teimlai cynrychiolwyr eraill o'r byd ffermio fod yn rhaid cael mwy o hyblygrwydd ar y targedau plannu coed, a bod angen ystyried ymarferoldeb cyflawni newid cynaliadwy a pharhaol.[69] Tynnodd Aled Jones o NFU Cymru sylw at y ffaith bod 43 y cant o'r 1,600 o bobl yn y grwpiau cyd-ddylunio wedi dweud y byddai'r targedau gorchudd coed yn eu hatal rhag ymuno â'r cynllun, a bod gan 52 y cant orchudd coed o 10 y cant eisoes.[70] Dywedodd na fydd buddion os na fydd 50 y cant o ffermwyr yn ymuno â'r cynllun.[71]

**43.** Roedd yr undebau ffermio yn pryderu y gallai tynnu tir allan o gynhyrchiant wneud Cymru'n fwy dibynnol ar fewnforion, gan greu allyriadau carbon ar y môr.[72][73][74] Pwysleisiodd Gareth Parry o FUW fod cael y goeden iawn yn y lle iawn yn rhywbeth yr oedden nhw a Phwyllgor Newid Hinsawdd y DU (CCC) yn ei argymell, ond dywedodd ei fod yn credu'n gryf bod y dull hwnnw wedi'i golli mewn sgyrsiau o fewn Llywodraeth Cymru yn wyneb y cynigion hyn.[75]

**44.** Mae diffyg data am orchudd coed presennol a pha mor agos y mae ffermwyr eisoes at gyflawni'r targedau wedi bod yn nodwedd o'r ddadl ynghylch y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Nododd y Pwyllgor fod yr Ysgrifennydd Cabinet wedi sicrhau bod gweithio ar y data yn flaenoriaeth. Dywedodd y canlynol wrth yr Aelodau: "*That accurate baseline data mapping is critical, going forward*."[76]

**45.** Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth ysgrifenedig werthfawr[77] gan yr Athro John Gilliland o Brifysgol Queen's Belfast, sy'n ffermwr ac arbenigwr polisi, am ei waith ar dechnolegau dal a storio carbon. Darparodd yr Athro Gilliland fanylion Prosiect Peilot 'Ffermio Clyfar Carbon' i helpu i gyflymu trawstoriad o saith math gwahanol o fferm i sero net a thu hwnt. Roedd methodoleg y prosiect yn cynnwys samplu pridd a thechnoleg radar (LIDAR), ac roedd wedi cael canlyniadau rhyfeddol ar feincnodi allyriadau gwaelodlin, stociau carbon a dal a

[68] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Mai 2024, Paragraff 294
[69] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Mai 2024, Paragraff 88-89
[70] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Mai 2024, Paragraff 67
[71] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Mai 2024, Paragraff 71
[72] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Mai 2024, Paragraff 94
[73] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Mai 2024, Paragraff 189
[74] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Mai 2024, Paragraff 90-97
[75] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Mai 2024, Paragraff 75
[76] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Mai 2024, Paragraff 382
[77] Papur - Yr Athro John Gilliland.pdf (senedd.cymru)

storio, pwysigrwydd mapiau risg dŵr ffo, a phecyn cymorth o atebion i ffermwyr eu defnyddio.

**46.** Gofynnodd y Pwyllgor i'r Ysgrifennydd Cabinet sut y gallai'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy fynd i'r afael â'r mater o goedwigo llwyr, lle mae corfforaethau'n prynu darnau mawr o dir Cymru i gyrraedd targedau allyriadau carbon, a'r effaith negyddol bosibl ar gymunedau gwledig. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet na allai reoli dewisiadau tirfeddianwyr, ond bod angen gwneud mwy o waith ar berchnogaeth gymunedol a rheoli tir, a chyfaddefodd fod angen dysgu gwersi o rai o'r enghreifftiau cymharol brin ond arwyddocaol y cyfeiriwyd atynt. Dywedodd fod angen iddynt wneud yn well na hynny.[78]

**47.** Soniodd Alex Phillips, sy'n cynrychioli Cyswllt Amgylchedd Cymru, am bwysigrwydd gofyniad cyffredinol ar gyfer creu coetir, ond awgrymodd y gallai'r targed plannu fod yn darged ar gyfer y cynllun yn hytrach na tharged ar gyfer fferm unigol, gyda mwy o hyblygrwydd ar lefel fferm gyda chymhellion ar gyfer plannu dewisol a bod hyn yn benderfyniad busnes i lawer o ffermwyr. Dywedodd, os yw'r arian parod yno a'i fod yn gwneud synnwyr o safbwynt busnes, y byddant yn fodlon gwneud hynny.[79]

**48.** Archwiliodd y Pwyllgor opsiynau dal a storio carbon yn fwy cyffredinol, a chroesawodd y cyfle i drafod hyn gyda James Richardson o CCC, a dynnodd sylw at ddulliau amaethyddol eraill o ddal a storio carbon sy'n ymwneud â gwrychoedd, pridd, mawndir a chnydau ynni. Fodd bynnag, disgrifiwyd coed fel rhan allweddol o becyn cyffredinol er mwyn cyrraedd sero net.[80]

**49.** Siaradodd y CCC am rôl cnydau ynni (nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar hyn o bryd) ond dywedodd ei bod yn bwysig sicrhau bod mesurau'n gyson ag amcanion bioamrywiaeth. Nododd eu bod yn ffynhonnell incwm bosibl i ffermwyr arallgyfeirio mewn byd sy'n newid, a dywedodd fod rôl iddyn nhw yn y lle iawn i wella bioamrywiaeth tir fel rhan o'r darlun cyfan.[81]

**50.** Buom yn trafod ffyrdd o leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o beiriannau fferm.[82] Nododd James Richardson o CCC fod datgarboneiddio cerbydau trwm a ddefnyddir mewn ffermio yn faes cymhleth, ond y byddai'r farchnad yn symud i'r

---

[78] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 13 Mehefin 2024, Paragraff 389
[79] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Mai 2024, Paragraff 298
[80] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Mai 2024, Paragraff 357
[81] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Mai 2024, Paragraffau 367-368
[82] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Mai 2024, Paragraffau 372-385

cyfeiriad hwnnw dros amser. Trafodwyd ymchwil technoleg-amaeth a datblygiadau mewn technoleg batri a hydrogen gwyrdd. Tynnodd yr Athro Janet Dwyer sylw at yr heriau o weithredu peiriannau trwm mewn amodau hinsoddol (gwlypach) sy'n gwaethygu. Nododd fod symud i ffermio gyda pheiriannau llai sy'n fwy ystwyth yn Japan yn creu mwy o gyfleoedd i ddefnyddio technolegau ynni adnewyddadwy. Cyfeiriwyd at waith mewn sefydliadau gan gynnwys y Brifysgol Amaethyddol Frenhinol a Phrifysgol Harper Adams.[83]

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor am sut y mae'n ystyried arfer gorau mewn mannau eraill yn y DU ac yn gwerthuso gwahanol dechnolegau ac opsiynau dal a storio carbon. Dylai nodi sut y caiff y gwaith hwn ei ymgorffori wrth ddatblygu a gwerthuso'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn y dyfodol.

[83] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Mai 2024, Paragraffau 383-385

# 7. Casgliadau

**Casgliad 1.** Mae’r Pwyllgor wedi rhybuddio Llywodraeth Cymru yn gyson bod yn rhaid i anghenion newydd-ddyfodiaid fod yn rhan flaengar a chanolog i gynlluniau cymorth i ffermwyr, er mwyn diogelu dyfodol y diwydiant. Mae hefyd wedi tynnu sylw at bryderon Cymdeithas y Fermwyr Tenant ynghylch ffermydd Cynghorau Sir. Wrth ymateb i Argymhelliad 19 o’n hadroddiad Cyfnod 1 ar Fil Amaethyddiaeth (Cymru) 2023, dywedodd y cyn Weinidog fod gweithgor sy’n cynrychioli’r undebau, Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc a cholegau amaethyddol wedi’i sefydlu a’i fod yn gweithio ar opsiynau i helpu i lunio’r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Roedd ein tystiolaeth ddiweddaraf yn awgrymu diffyg ymgynghori ystyrlon, a methiant i hyd yn oed sefydlu gweithgor ‘cenhedlaeth nesaf’. Mae safbwyntiau gwahanol mor hwyr yn y broses o ddatblygu’r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, yn dilyn proses hir o ‘gyd-ddylunio’, yn peri pryder. Maent yn atgyfnerthu pryderon ehangach y Pwyllgor ynghylch sut y mae cynigion polisi Llywodraeth Cymru wedi cael eu cyfleu i randdeiliaid. Mae angen gwneud cynnydd ar frys ar ffyrdd o gefnogi ffermwyr tenant a chominwyr. ........ 12

**Casgliad 2.** Un o'r meini tramgwydd mwyaf gyda chynigion y cynllun fu diffyg gwybodaeth i'r diwydiant am fethodoleg a chyfraddau talu. Er bod y cam paratoi yn caniatáu mwy o amser i weithio ar fanylion y fethodoleg talu, bydd yn hanfodol i'r Ford Gron weithio'n gyflym i lunio a chytuno ar fethodoleg realistig a chadarn ochr yn ochr â chamau gweithredu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy y cytunwyd arnynt. Mae'r Pwyllgor yn gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi ystyriaeth lawn i farn rhanddeiliaid ar yr agwedd hollbwysig hon ar y cynllun........ 15

**Casgliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn deall awydd rhanddeiliaid i adolygu ac ail-becynnu Gweithredoedd Cyffredinol y cynllun, a chyflwyno’r Gweithredoedd gwahanol yn haenau Dewisol a Chydweithredol y cynllun fesul tipyn. Mae’n croesawu nod Llywodraeth Cymru i gyflwyno cymait o Weithredol Dewisol a Chydweithredol â phosibl ochr yn ochr ag elfen gyffredinol y cynllun. Mae’n hollbwysig gweithredu’n gyflym, a hoffai'r Pwyllgor gael sicrwydd bod y Ford Gron yn gwneud cynnydd cyflym o ran datrys y materion hyn. ........ 17

# Atodiad 1: Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r sesiynau tystiolaeth lafar ar dudalen we'r Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| **9 Mai 2024** | **Aled Jones, Llywydd,**<br>Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU) Cymru<br>**Alex Phillips, Rheolwr Polisi ac Eiriolaeth WWF Cymru**,<br>Cyswllt Amgylchedd Cymru<br>**Andrew Tuddenham, Pennaeth Polisi, Cymru,**<br>Cymdeithas y Pridd Cymru, Fforwm Organig Cymru<br>**Dennis Matheson**, **Cadeirydd,**<br>Cymdeithas y Ffermwyr Tenant<br>**Dominic Hampson-Smith, Is-Gadeirydd Materion Gwledig,**<br>Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru (CFfI)<br>**Gareth Parry, Pennaeth Polisi,**<br>Undeb Amaethwyr Cymru (FUW)<br>**James Richardson, Prif Weithredwr Dros Dro,**<br>Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU (CCC)<br>**Yr Athro Janet Dwyer,**<br>Prifysgol Swydd Gaerloyw<br>**Rhys Evans, Rheolwr Cymru,**<br>Y Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur<br>**Rhys Owen, Pennaeth Cadwraeth, Coetir ac Amaethyddiaeth, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri,**<br>Tirweddau Cymru |
| **13 Mehefin 2024** | **Huw Irranca-Davies, Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig,**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Gian Marco Currado, Cyfarwyddwr, Materion Gwledig,**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Richard Irvine, Prif Swyddog Milfeddygol,**<br>Llywodraeth Cymru |

# Atodiad 2: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld gwybodaeth yn ymwneud â gwaith ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a wnaed gan y Pwyllgor hwn, a'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, ar wefan y Senedd.

## Dogfennau

| Teitl | Dyddiad |
|---|---|
| Papur – Yr Athro John Gilliland | 9 Mai 2024 |
| Papur Tystiolaeth – Cymdeithas y Ffermwyr Tenant - Eitem 2 | 9 Mai 2024 |
| Tystiolaeth ychwanegol – Cymdeithas Ffermwyr Tenant | |
| Papur tystiolaeth – Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru (NFU Cymru) – Eitem 2 | 9 Mai 2024 |
| Papur Tystiolaeth – Undeb Amaethwyr Cymru (FUW) – Eitem 2 | 9 Mai 2024 |
| Papur Tystiolaeth – Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru – Eitem 2 | 9 Mai 2024 |
| Papur Tystiolaeth – Cyswllt Amgylchedd Cymru – Eitem 4 | 9 Mai 2024 |
| Papur Tystiolaeth – Fforwm Organig Cymru – Eitem 4 | 9 Mai 2024 |
| Papur Tystiolaeth - Tirweddau Cymru – Eitem 4 | 9 Mai 2024 |
| Papur Tystiolaeth – Yr Athro Janet Dwyer – Eitem 5 | 9 Mai 2024 |
| Papur Tystiolaeth – Llywodraeth Cymru – Eitem 5 | 13 Mehefin 2024 |